



Ysgol Maes Garmon

Prosbectws 2024 Prospectus

Mynegai *Index*

Croeso	3	<i>Welcome</i>
Ein gweledigaeth	4-6	<i>Our Vision</i>
Pontio	7	<i>Transition</i>
Dwy iaith, dau gyfle	8	<i>Two languages, double opportunity</i>
Y Cwrs Trochi	9	<i>The Immersion Course</i>
Teulu YMG	10	<i>YMG Family</i>
Ein cwricwlwm	11-15	<i>Our curriculum</i>
Dyheadau a disgwyliadau	16	<i>Aspirations and Expectations</i>
Gweithgareddau allgyrsiol	17	<i>Extra-curricular activities</i>
Cefnogaeth i bawb	18	<i>Support for all</i>
Mae eich barn yn bwysig	19	<i>Your opinion is important</i>
Adeiladau a Chyfleusterau	20-21	<i>Accommodation and Facilities</i>
Gweithio efo'n gilydd	22	<i>Working together</i>
Cyn-ddisgyblion	23	<i>Past Pupils</i>
Cysylltu â ni	24	<i>Contact us</i>

Rydw i'n hynod o falch i'ch croesawu chi - yn ddarpar ddysgwyr, rhieni a gofawyr - i brosbectws yr ysgol eleni. Cewch wledd o wybodaeth am yr ysgol a pham mai Ysgol Maes Garmon yw'r dewis cywir ar gyfer eich plentyn.

Mae arwyddair yr ysgol sef 'Ni Lwyddir heb lafur' mor berthnasol ag erioed. Mae ein safonau a'n disgwyliadau yn uchel gan sicrhau bod ein dysgwyr yn ymrwymo'n llawn i'w profiadau dysgu.

Yma yn Ysgol Maes Garmon rydym yn trin pob plentyn fel unigolyn, gan feithrin eu potensial, eu chwilfrydedd a'u brwdfrydedd tuag at ddysgu. Mae ein staff yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol fydd yn caniatáu iddynt fod yn ddinasyddion gwybodus, a'u galluogi i symud ymlaen i brifysgol neu gyflogaeth. Mae ein hysgol yn enwog am ymdeimlad o 'deulu' ac mae ein gwerthoedd craidd o fod yn hapus, cwrtais a gofalgwr yn disgleirio trwy gymuned yr ysgol a thu hwnt.

Rydym yn ymfalchïo bod ein dysgwyr yn dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod nhw'n angerddol am eu traddodiadau a'u hetifeddiaeth. Fel dinasyddion Cymru gyfoes, mae'r gallu i sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hynod werthfawr i gyflogwyr, ac mae'r profiadau sy'n cael eu rhoi i'n dysgwyr yn Ysgol Maes Garmon yn galluogi eich plentyn i flodeuo yn y ddwy iaith.

Fel cyn-ddisgybl, mae'n ffraind cael arwain ysgol sy'n golygu cymaint i mi. Rwy'n edrych ymlaen at groesawu eich plentyn i Ysgol Maes Garmon wrth iddyn nhw gychwyn ar eu siwrne i addysg uwchradd.

I am pleased to welcome you - prospective learners, parents and carers - to this year's school prospectus. You will find a wealth of information about the school and why Ysgol Maes Garmon is the right choice for your child.

The school's motto 'Ni Lwyddir heb lafur' ('Success is not achieved without labour') is as relevant today as it was when it was first adopted. Our high standards and expectations ensure that our learners are fully engaged in their learning experiences.


Here at Ysgol Maes Garmon we treat every child as an individual, nurturing their potential, curiosity and enthusiasm towards learning. Our staff work tirelessly to ensure all our learners develop the necessary skills in order to enable them to become well-informed citizens that will go on to university or employment. Our school is renowned for its ethos of 'teulu' (family) and our core values of being happy, polite and caring shine through the school community and beyond.

We take great pride in the fact that our learners follow their courses through the medium of Welsh, and are passionate about their Welsh heritage and traditions. As citizens of a modern Wales, the ability to converse confidently in both Welsh and English is highly valued by employers, and the experiences given to our learners at Ysgol Maes Garmon will enable your child to flourish in both languages.

As a former pupil, I feel privileged to lead a school that means so much to me. I look forward to welcoming your child to Ysgol Maes Garmon as they embrace their journey into secondary education.



PENNAETH / HEADTEACHER
Mrs Bronwen Hughes B.Add




Ein gweledigaeth yw
meithrin staff a dysgwyr
sy'n **Gymry balch,
hyderus, parchus,
mentrus a phenderfynol**
wrth weithredu fel
unigolion ac mewn tîm er
mwyn sicrhau dyfodol
llewyrchus i'n cymuned
a'n gwlad.

Our vision is to nurture
staff and learners who
are **proud, confident,
respectful, enterprising
and determined Welsh
citizens** when working as
individuals and in a team
so that we can ensure a
bright future for our
community and country.

		 Fy hun	 Ein Hysgol	 Ein Cymuned
 BALCH	Byddaf yn garedig gyda fi fy hun ac yn falch o bob cam cadarnhaol rwy'n ei gymryd.	Byddwn yn falch ein bod ni'n Gymry sy'n medru siarad Cymraeg â phawb yn yr ysgol.	Byddwn yn falch ein bod ni'n Gymry sy'n awyddus i ddathlu a hybu diwylliant a thraddodiadau Cymru.	
 HYDERUS	Byddaf yn hyderus wrth weithio gan wybod fy mod am ddysgu o fy llwyddiannau a fy nghanmymeriadau.	Byddwn yn hyderus wrth gyd-weithio gan wybod ein bod yn gryfach wrth weithio fel tîm.	Byddwn yn hyderus ac yn weithredol er mwyn gwneud ein cymuned yn un cadarnhaol.	
 PARCHUS	Byddaf yn barchus tuag at fy nheulu a fy ffrindiau gan eu trin fel y dymunwn i gael fy nhrin.	Byddwn yn barchus at ein gilydd gan ddeall ein bod ni i gyd yn wynebu heriau amrywiol.	Byddwn yn barchus at bawb yn ein cymuned fel ein bod ni i gyd yn teimlo'n ddiogel.	
 MENTRUS	Byddaf yn fentrus ac yn chwillfrydig er mwyn gwneud cyfraniad positif yn ein byd.	Byddwn yn fentrus gan groesawu cyfleoedd newydd fydd yn ein cynnau wrth fod yn ddysgwyr gydol oes.	Byddwn yn fentrus fel Cymry sydd eisiau gofalu dros ein gwlad brydferth.	
 PENDERFYNOL	Byddaf yn benderfynol o gyrraedd y nod, er y bydd pethau'n anodd ar adegau.	Byddwn yn benderfynol ac yn weithredol er mwyn creu amgylchedd positif i bawb.	Byddwn yn benderfynol o fyw'n gyfrifol er mwyn sicrhau dyfodol disglair i'n cymuned, gwlad a'n byd.	

		 Myself	 Our School	 Our Community
 PROUD	I will be kind to myself and proud of every positive step I take.	We will be proud that we are Welsh citizens who can speak Welsh with everyone in school.	We will be proud that we are Welsh citizens who want to celebrate and promote our culture and traditions.	
 CONFIDENT	I will be confident when working knowing that I will learn from my successes and mistakes.	We will be confident working together knowing that we are stronger working as a team.	We will be confident and proactive in ensuring our community is positive.	
 RESPECTFUL	I will be respectful towards my friends and family, treating them as I wish to be treated.	We will be respectful towards each other knowing that we all face various challenges.	We will be respectful towards everyone in our community so that we all feel safe.	
 ENTERPRISING	I will be enterprising and curious so that I can make a positive impact in our world.	We will be enterprising by embracing new opportunities that will ignite us to be lifelong learners.	We will be enterprising as Welsh citizens who want to care for our beautiful country.	
 DETERMINED	I will be determined to reach the end goal, even though it might be difficult at times.	We will be determined and proactive in creating a positive environment for all.	We will be determined to live responsibly to ensure a bright future for our community, country and world.	



Yn Arwain Addysg Gymraeg...

Leading Welsh Education...

Ysgol Maes Garmon yw'r unig ysgol uwchradd yn Sir Y Fflint sy'n cynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Agorwyd drysau ein hysgol ym mis Medi 1961 i 109 o ddisgyblion a 9 o staff, ac erbyn hyn, mae'r ysgol wedi tyfu i fod yn ganolfan addysg i bron i 600 o ddysgwyr gydag 87 o staff. Mae'r ysgol yn unigryw fel yr unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint, ac rydym yn falch o'r enw da sydd ganddi yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.



Ysgol Maes Garmon is the only secondary school in Flintshire to offer Welsh-medium education. The doors of our school officially opened in September 1961 to 109 pupils and 9 members of staff, and has since grown to be a centre of education for almost 600 learners and 87 members of staff. The school is the only Welsh-medium school in Flintshire, and we are proud of the good name our school holds locally, nationally and internationally.



Pontio

Rydym yn cydweithio'n agos efo'r ysgolion cynradd i sicrhau trosglwyddiad hapus a chadarnhaol i'ch plentyn. O'r noson agored at yr wythnos gyntaf yma ym mis Medi, bydd cyfleoedd i'ch plentyn ddod i adnabod yr ysgol yn well, dan ofal Pennaeth Blwyddyn ymroddgar a gofalgarg. Mae hyn yn cynnwys diwrnodau Pontio 5 a 6 ym mis Hydref.

Bydd cyfle hefyd i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i ddod i'r ysgol ar gyfnodau ychwanegol, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd efo'r adeiladau a'r systemau uwchradd.



Transition

We work closely with our junior schools to ensure a happy and positive transition for your child. From the open evening to the first week here in September, your child will receive opportunities to familiarise themselves with the school, guided by a committed and caring Head of Year. This includes transition days such as Pontio 5 and 6 days in October.


There will also be opportunities for learners with additional learning needs to visit the school during additional periods, so they can ensure they are familiar with our buildings and the systems within high school.

Dwy iaith – dau gyfle

Two languages – double the opportunity

'A yw eu Saesneg yn dioddef?'

Pan mae plant Saesneg eu hiaith yn cael eu haddysgu yn Gymraeg, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw eu cyflawniad yn dioddef yn yr ysgol; mewn gwirionedd, mae'r gwrthwyneb yn wir. Mae'r graddau Saesneg a gyflawnir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn aml yn rhagori ar rai ysgolion Saesneg. Mae hyn yn sicr yn wir yn ein hysgol ni, gyda **94.9%** o garfan **2022** yn ennill rhwng **A*-C** yn eu TGAU Saesneg (y radd orau o iaith/llenyddiaeth).



'Will their English suffer?'

When English language children are educated through the medium of Welsh, the evidence suggests that their achievement does not suffer in school; indeed the opposite is true. The English grades achieved in Welsh-medium schools often surpass those in English-medium schools. This is certainly true of our school, with 94.9% of the 2022 cohort achieving A*-C grades in GCSE English (the best grade from language/literature).

Ein Cwrs Trochi

Dydy hi byth yn rhy hwyr i gynnig manteision addysg ddwyieithog i'ch plentyn! Mae gan Ysgol Maes Garmon hanes llwyddiannus o groesawu dysgwyr 11 oed a fynychodd ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg gan eu trochi'n llythrennol yn yr iaith Gymraeg.

Mae ein Cwrs Trochi yn cynnig cwrs iaith dwys am chwe wythnos i ddysgwyr Blwyddyn 6 ar ddiwedd tymor yr haf. Mae'n darparu cyfle iddynt ddechrau dysgu Cymraeg cyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 7, ac i wneud ffrindiau gyda disgyblion eraill y Cwrs Trochi. Mae hyn yn cynorthwyo'r broses pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

Darperir cwricwlwm arbennig ar gyfer dysgwyr y Cwrs Trochi. Ym Mlwyddyn 7, ceir cwrs iaith Gymraeg dwys ar gyfer y rhai sy'n dod i mewn i'r ysgol yn ddi-Gymraeg. Mae staff sy'n arbenigo mewn ieithoedd a phynciau eraill yn canolbwyntio i ddechrau ar gyflwyno'r dysgwyr i'r Gymraeg a ddaw'n gyfrwng astudio'r pynciau eraill yn nes ymlaen yn yr ysgol. Y nod yw darparu ystod eang o weithgareddau i roi profiad cyfoethog iddynt o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cyrsiau preswyl.

Ceir mwy o wybodaeth yn ein Prosbectws Trochi. Cysylltwch â'r ysgol am gopi digidol.



Our Immersion Course

It's never too late to give your child the advantages of a Welsh medium education! Ysgol Maes Garmon has a successful history of welcoming 11 year-old learners who have attended English medium primary schools by quite literally immersing them in the Welsh language.

Our Immersion Course offers all Year 6 pupils a six-week intensive language course at the end of the summer term. It provides learners with the opportunity to start learning Welsh before they begin Year 7, to make friends with other Immersion Course pupils and aid the transition process between primary and secondary school.

A special curriculum is provided for Immersion Course learners. In Year 7, an intensive Welsh language course is provided for those who enter our school as non-Welsh speakers. Specialist staff in languages and other subject areas concentrate initially on introducing the learners to Welsh, which will become the medium of studying other subjects further up the school. The aim is to provide a broad range of activities to give them a rich experience of learning through the medium of Welsh, including residential courses.



Please see our Immersion Prospectus for further information. Contact the school for a digital copy.

Teulu Ysgol Maes Garmon

Gofalu am ein dysgwyr yw ein blaenoriaeth a'n cryfder fel ysgol. Os ydyn nhw'n hapus ac yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi, yna fe wnân nhw ymfalchïo yn eu haddysg. Byddwch chi a'ch plentyn yn dod yn rhan o'n teulu ni yma ym Maes Garmon. Rydym yn ysgol fach lle mae staff a dysgwyr yn dod i adnabod ei gilydd yn dda, sy'n arwain at berthynas waith gefnogol a chynhyrchiol. Byddwch chi hefyd yn cael cyfle i rannu eich barn efo ni'n gyson, trwy'r Fforwm Rhieni a Gofalwyr neu drwy holiaduron cyson. Bydd Pennaeth Blwyddyn eich plentyn hefyd yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â chi.

Gosodir pob dysgwyr mewn dosbarth cofrestru gyda Thiwtor a Phennaeth Blwyddyn fydd yn aros gyda nhw hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae maint ein dosbarthiadau'n fach sy'n golygu llawer o sylw unigol.

Mae amgylchedd yr ysgol yn gefnogol a gofalgwr ac mae anghenion dysgwyr unigol yn cael eu hadnabod yn gyflym ac yn cael eu diwallu gan dîm ymroddedig o athrawon a staff ategol.

Mae myfyrwyr chweched dosbarth yn cael eu hyfforddi fel gwrandawyr cyfoedion ac yn gallu cefnogi disgyblion iau. Rydym hefyd yn gallu tynnu ar wasanaethau cefnogi ychwanegol i ddiwallu anghenion ein disgyblion.



Caring for our learners is our priority and strength. If they are happy and valued, then they will take pride in their education. You and your child will become part of our Maes Garmon family. We are a small school where staff and learners get to know each other well, resulting in a supportive and productive working relationship. You will also get the chance to share your opinions with us, through the Parent and Guardian Forum or via our regular questionnaires. The Head of Year will also keep in regular contact with you.

Each learner will be placed in a registration class with a Tutor and Head of Year that will stay with them until the end of Year 11. Class sizes are small meaning lots of individual attention. Our school environment is a supportive and caring one where the needs of individual pupils are identified quickly and catered for by a team of caring and committed teachers and support staff.

Sixth-form students are trained as peer listeners and are able to support younger pupils. We are also able to draw on additional support services to meet the needs of our pupils.




The Maes Garmon Family

Ein Cwricwlwm ● Our Curriculum

Ym mis Medi 2024, bydd Blynyddoedd 7, 8 a 9 yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru. Mae ein model cwricwlwm yn ddisgyblaethol – lle cyflwynir gwersi fel pynciau ar wahân, gydag adrannau'n cydweithio i gyflwyno profiadau cyfoethog sy'n canolbwyntio ar y datganiadau o'r 'hyn sy'n bwysig' o fewn pob un o'r chwe Maes Profiad Dysgu. Bydd prosiectau trawsgwricwlaidd hefyd yn cael eu cyflwyno trwy gydol y flwyddyn.


Dyniaethau Humanities

Hanes/History
Daearyddiaeth/Geography
Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg/
Religion, Values and Ethics



Iechyd a Lles Health and Wellbeing

Addysg Gorfforol/Physical Education
Coginio/Cookery
Addysg Bersonol a Chymdeithasol/
Personal and Social Education



Celfyddydau Mynegiannol Expressive Arts

Cerddoriaeth/Music
Celf/Art




Gwyddoniaeth/Science
Dylunio a Thechnoleg/
Design and Technology
Technoleg Gwybodaeth
Information Technology

Gwyddoniaeth a Thechnoleg Science and Technology



Cymraeg/Welsh
Saesneg/English
Ffrangeg/French

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Languages, Literacy and Communication



Mathemateg/Mathematics

Mathamateg a Rhifedd Mathematics and Numeracy

In September 2024, Years 7, 8 and 9 will follow the Curriculum for Wales. Our curriculum model is disciplinary – where lessons are delivered as separate subjects, with departments collaborating to deliver rich experiences that focus on the 'what matters' statements within every one of the six Areas of Learning Experience. Cross-curricular projects will also be delivered throughout the year.

Ein Disgwyliadau

Our Expectations

Fel ysgol, rydym yn mynnu'r safonau uchaf er mwyn sicrhau trefn a diogelwch pawb yn yr ysgol. Disgwyliwn i bob dysgwr ...

siarad Cymraeg, gwrando'n weithredol, peidio defnyddio ffôn symudol, gwisgo'r wisg ysgol gywir, dod ag offer i'r ysgol a bod yn brydlon i wersi.



As a school, we insist on high standards to ensure order and the safety of everyone in the school. We expect every learner to

speak Welsh, actively listen, not use mobile phones, wear the correct school uniform, bring equipment to school, and be punctual to lessons.



Mae'r cwricwlwm yn cynnwys ystod o weithgareddau a phrofiadau sydd yn cael eu cynllunio er mwyn cefnogi ein dysgwyr i ddysgu, a'u paratoi ar gyfer byw bywyd llawn yn yr unfed ganrif ar hugain o fewn y gymdeithas ddwyieithog y maent yn byw ynddi.

Ar gyfer pob maes dysgu ceir Arweinydd Pwnc fydd yn cefnogi aelodau ei adran i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau.

Er mwyn sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm ar gyfer bob plentyn, caiff y ddarpariaeth ei gwahaniaethu mewn amrywiol ffyrdd, a gwneir pob ymdrech i ymateb i anghenion yr unigolyn

Rydym yn awyddus i'n dysgwyr fod yn chwilfrydig am eu dysgu. Wrth weithio'n annibynnol, bydd dysgwyr yn cryfhau eu gwydnwch. Bydd tasgau annibynnol yn cael eu gosod trwy ein ap cyfathrebu, Weduc.

We are eager for our learners to be curious about their learning. By working independently, learners will strengthen their resilience. Independent tasks will be set through our communications app, Weduc.

The curriculum includes a range of experiences and activities that are planned to prepare our students to live a full life in our twenty-first century bilingual society.

Each subject is led by a Subject Leader who supports their team of teachers to ensure that they deliver lessons of a high standard to students of all abilities.

In order to make the curriculum accessible to everyone, every attempt is made to adapt and differentiate in accordance with the individual's needs.



Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae dysgwyr yn dechrau ar gyrsiau dwy flynedd yn arwain at achrediad allanol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd academiaidd a galwedigaethol yn arwain at gymwysterau cenedlaethol, sef TGAU, BTEC, a Dyfarniad Lefel Mynediad. Gellir cymryd hyd at bedwar pwnc ar ddeg sy'n dwyn dyfarniad.

Mae'n hanfodol astudio'r pynciau craidd isod:

Cymraeg (Iaith a Llenyddiaeth)	Saesneg (Iaith a Llenyddiaeth)
Mathemateg a Mathemateg Rhifedd	Gwyddoniaeth
Addysg Gorfforol	Addysg Grefyddol
Addysg Bersonol a Chymdeithasol	Bagloriaeth Cymru

Bydd angen astudio tri phwnc ychwanegol o'r rhestr isod:

Addysg Gorfforol Addysg Grefyddol Busnes Celf a Dylunio Daearyddiaeth Hanes
 Dylunio a Thechnoleg Defnyddiau Gwrthiannol Cerddoriaeth Ffrangeg Sbaeneg Drama
 Peirianeg Dylunio Cynnyrch Iechyd a Gofal Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

In Key Stage 4 learners embark on two-year courses leading to external accreditation. These include academic and vocational learning opportunities leading to nationally recognised qualifications, namely GCSE, BTEC, and Entry Level Certification. Up to fourteen award bearing subjects can be taken.

It is compulsory for learners to study the following courses:

<i>Welsh (Language and Literature)</i>	<i>English (Language and Literature)</i>
<i>Mathematics and Numeracy Mathematics</i>	<i>Science</i>
<i>Physical Education</i>	<i>Religious Education</i>
<i>Personal and Social Education</i>	<i>Welsh Baccalaureate</i>

A further three subjects from the list below will also be studied:

Physical Education Religious Education Business Art and Design Geography History
Design and Technology Resistant Materials Music French Spanish Engineering
Product Design Health and Social Care Information Technology and Communication

CA5 / KS5

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod cymaint o'n myfyrwyr 16+ yn dewis dychwelyd atom i ymuno â'r chweched dosbarth i astudio UG, Safon Uwch a chyrsgau galwedigaethol. Rydym yn darparu ystod eang o gyrsgau, yn cynnwys rhai sy'n cael eu haddysgu gan Goleg Meirion Dwyfor ac E-sgol trwy gyfrwng ein hadnoddau fideo gynadledda.

Mae gan ein myfyrwyr record ardderchog o fynediad i brifysgolion a cholegau. Rhoddir arweiniad arbenigol i bob myfyriwr gan staff sy'n eu hadnabod ers Blwyddyn 7, wrth iddynt wneud ceisiadau prifysgol neu goleg. Mae cynlluniau mentora ar gyfer myfyrwyr yn eu hannog i ymestyn eu potensial ac i lwyddo i ennill eu graddau targed.

Cyhoeddir ein prospectws Chweched Dosbarth ym mis Rhagfyr.



We take great pride in the fact that so many of our 16+ students return to Ysgol Maes Garmon every year to join the sixth form to study AS, A level and Vocational courses. We provide a broad range of courses, including some that are taught by Coleg Meirion Dwyfor and E-sgol using our video conferencing suite.

Our students have an excellent record of entry to universities and colleges. Every student will be given expert guidance and advice by staff, who have known them since Year 7, when making their college and university applications.

Mentoring schemes for students encourage them to extend their potential and achieve target grades.

Our Sixth-Form prospectus is published in December.



Dyheadau...

Rydym yn awyddus i weld pob dysgwr yn ymestyn eu potensial ac yn dyheu i wneud eu gorau glas ar bob achlysur. Mae pob aelod o deulu Ysgol Maes Garmon yn aelod o dŷ a thrwy gydol y flwyddyn, bydd cyfleon i'r dysgwyr gasglu pwyntiau i'w tŷ trwy ymroï'n llwyr i'w hastudiaethau. Bydd ein staff hefyd yn anfon cardiau canmol i'r dysgwyr am waith arbennig, yn ogystal â rhoi galwad adref er mwyn i Rieni a Gofalwyr glywed yn uniongyrchol am unrhyw ganmoliaeth i'w plentyn.

Disgwyliwn i bob un o'n dysgwyr barchu'r ffaith eu bod nhw'n aelod o ysgol Gymraeg gan siarad yr iaith efo unrhyw un sy'n ei deall. Disgwyliwn i bawb ddangos parch at ein staff, eu cyfoedion a'u hunain. Rydym hefyd yn disgwyl i ddysgwyr wisgo'r wisg ysgol swyddogol gan fod yn falch o'u hunaniaeth academaidd.



We are eager to see every learner extend their potential and to aspire to do their very best at all times. Every member of the Ysgol Maes Garmon family belongs to a house and throughout the year, learners will have opportunities to garner positive points for their house by being fully committed to their studies. Our staff also send praise postcards to the learners for special work, as well as contacting Parents and Carers so that they can directly hear of any praise given to their child.

We expect every learner to respect the fact that they are member of a Welsh school by speaking the language with everyone who understands it. We expect everyone to show respect to our staff, their peers and themselves. We also expect every learner to wear the correct school uniform, being proud of their academic identity.



Aspirations...

'Un o gryfderau'r ysgol yw'r ddarpariaeth o ystod eang o gyfleoedd diwylliannol gwerthfawr sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn cynnwys rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau chwaraeon a chelfyddydol buddiol...' (Estyn Rhagfyr 2019)

Blas o'n harlwy allgyrsiol:

- Clwb Hanes
- Eisteddfod yr Urdd – Llefaru/Cerddoriaeth
- Clwb Celf
- Clwb Perfformio (dan ofal Theatr Clwyd)
- Cyngerdd Nadolig
- Cystadleuaeth F1 mewn ysgolion
- Eco-sgolion
- Teithiau tramor (e.e. Hanes a Daearyddiaeth i'r Eidal)
- Gwersi cerddoriaeth peripatetig
- Chwaraeon o bob math
- Clwb Gwaith Cartref
- Speakers for Schools



Y cwricwlwm y tu hwnt i'r dosbarth...

The curriculum beyond the classroom...

'One of the school's strengths is the provision of a wide range of valuable cultural opportunities that enrich pupils' learning experiences. This includes a comprehensive programme of beneficial sports and arts activities...' (Estyn December 2019)

A taste of our extracurricular activities:

- History Club
- Eisteddfod yr Urdd – Recitation/Music
- Art Club
- Performing Club (delivered by Theatr Clwyd)
- Christmas concert
- F1 in schools competition
- Eco-schools
- Trips abroad (e.g. History and Geography to Italy)
- Peripatetic music lessons
- A variety of sports
- Homework Club
- Speakers for Schools



Cefnogaeth i Bawb...

Mwy Abl a Talentog

Rydym yn ymwybodol bod pob plentyn ag anghenion addysg amrywiol a'u bod yn haeddu'r ddarpariaeth addysg orau. Mae ein hysgol yn gwneud defnydd o arweinyddion cwricwlwm profiadol i adnabod plant dawnus a darparu ar eu cyfer mewn meysydd academiaidd. Yn ogystal gellir darparu ar gyfer plant sy'n dangos gallu eithriadol mewn meysydd eraill trwy gysylltu ag asiantaethau allanol i ddod i mewn neu i gydweithio gyda ni i roi profiadau hyfforddiant mewn meysydd y tu hwnt i gwrwclwm bob dydd yr ysgol.

Mae Mr Owen Thomas, ein Cydlynnydd Mwy Abl a Talentog, yn cynnal sesiynau mentora rheolaidd ac yn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cynnig i ddysgwyr ddatblygu unrhyw feysydd y maen nhw'n rhagori ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau undydd fel 'Doctoriaid y Dyfodol' a diwrnodau arbennig yn Rhydychen a Chaergrawnt.

Cynhwysiant

Nod yr ysgol yw darparu cwricwlwm a gweithgareddau fydd yn ysgogi ac yn cyfnerthu cymhelliant y dysgwyr fel eu bod yn ymestyn eu potensial. Rydym yn credu y gallwn gyflawni hyn trwy gyfrwng disgwyliadau uchel o berfformiad pob dysgwr, gan roi sylw penodol i unigolion.

Trefnir cefnogaeth ar gyfer rhai grwpiau neu ddysgwyr unigol sydd ag anghenion ychwanegol, yn ôl anghenion penodol y dysgwyr. Mae hyn wedi cylch o drafodaethau gyda rhieni a gofawyr, y dysgwyr, ynghyd ag asiantaethau.

Gweithredir cefnogaeth i ddisgyblion unigol yn unol â Chod Ymarfer Anghenion Ychwanegol. Mae Mr Huw Griffiths, ein Cyd-gordydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn arwain tîm o Gymorthyddion Dosbarth, yn ogystal â chydweithio gyda gwasanaeth Athro Cefnogi Ymddygiad, Gweithiwr Cymdeithasol Addysg a Seicolegydd Addysg yr AALL. Mae'r 'Hwb' yn lle i ddisgyblion dderbyn cefnogaeth academiaidd a bugeiliol.

Support for All...

More Able and Talented

We are aware that every child has various individual learning needs and that they deserve the best education provision. Ysgol Maes Garmon makes use of experienced curriculum leaders to identify gifted children and to make provisions for them in academic areas. Also, provision can be provided for pupils who show exceptional ability in other areas by contacting external agencies and arranging for them to come in or to liaise with us to provide experiences and instruction in areas beyond the school's regular curriculum.

Mr Owen Thomas, our More Able and Talented Co-ordinator, hosts regular mentoring sessions and ensures that learners are offered opportunities to enhance subject areas in which they have developed a particular aptitude. These include one day courses such as the 'Doctors of the Future' and special open days at Oxford and Cambridge.

Inclusion

The aim of the school is to provide a curriculum and activities which will stimulate and reinforce the learners' motivation so that they can extend their potential. We believe that we can achieve this by keeping a high expectation of every learner's performance, and by giving each pupil specific attention.

Support is arranged for some groups or individual pupils with additional needs in line with their specific needs. This is following a round of discussions between parents and carers, the learners, as well as external agencies.

Individual support is given in line with the Additional Needs Code of Practice. Mr Huw Griffiths, our Additional Needs Co-ordinator, leads a team of Classroom Support Workers, as well as liaising with the LA's Behaviour Support Teacher, Educational Social Worker and Education Psychologist. The 'Hwb' is where learners receive both educational and psychological support.

'Mae barn pawb yn bwysig...'

Fforwm y Disgyblion

O dan gadeiryddiaeth y Prif Ddisgyblion, mae'r fforwm yn cynnwys aelodau etholedig o bob grŵp blwyddyn. Mae'r fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'r aelodau'n chwarae rôl bwysig yn cynrychioli barn eu cyd-ddysgwyr gan godi materion fydd yn helpu i wella'r ysgol.

Fforwm Rhieni a Gofalwyr

Mae'r fforwm yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn. Gyda'r cyfarfodydd yn para am oddeutu awr, mae pawb sy'n bresennol yn cael y cyfle i drafod y materion dan sylw mewn awyrgylch cyfeillgar a pharchus. Nid oes yn rhaid mynychu pob fforwm; mae'r cyfarfodydd yn ddewisol, ond mae croeso cynnes i bob rhiant a gofalwr.

Pupils' Forum

Chaired by the Head Pupils, the pupils' forum is made up of two elected members from every year group. Meeting regularly they play an important role in representing the views of their fellow learners, raising issues that will help make the school a better place.

Parents and Carers' Forum

The forum meets twice a year. With meetings lasting for around one hour, attendees get the chance to discuss pressing matters in a friendly and respectful environment. There is no obligation to attend each forum; the meetings are optional, but all parents and carers are warmly invited.

Holiaduron / Questionnaires

Yn achlysurol, byddwn yn anfon holiaduron digidol i chi eu llenwi er mwyn casglu eich barn am amrywiaeth o destunau sy'n ymwneud â'r ysgol.

We occasionally send digital questionnaires for you to complete so that we may garner your opinions about a variety of topics relevant to our school.



'Everyone's opinion is important...'

Adeiladau a Chyfleusterau

Technoleg / Technology

- Darpariaeth lawn ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn ystafelloedd Rhwydwaith Cyfrifiadurol yn cynnig mynediad at rwydweithiau'r ysgol a'r sir yn ogystal â'r rhyngrwyd.
- Technoleg symudol sy'n cynnwys chromebooks, i-pads ac Apple TV.
- Ystafelloedd arbenigol ar gyfer cerddoriaeth ac addysgu peripatetig sy'n cynnwys i-macs a chyfrifiaduron newydd.
- Ardaloedd astudio ac ystafell gyffredin ar gyfer myfyrwyr Chweched Dosbarth â 'wi-fi'.
- Ystafell fideo gynadledda ar gyfer dysgu o bell a chysylltiadau rhwngwladol.
- Amrywiaeth eang o ystafelloedd dosbarth, yn cynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol a sgriniau cyffwrdd.
- Bloc Dylunio a Thechnoleg sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer Dylunio drwy gymorth cyfrifiadur, gweithdai yn cynnwys torrwr laser ac argraffwyr 3D yn ogystal ag ardaloedd Bwyd a Thecstilau.



- Full provision for Information and Communication Technology in Network Computer suites allowing access to school and county networks as well as the Internet.
- Mobile technology that includes chromebooks, i-pads and Apple TV.
- Specialist music and peripatetic teaching rooms that include brand new computers and i-macs.
- Study areas and common room areas for Sixth-Form students with wi-fi access.
- Video conferencing suite for distance learning and international links.
- A wide range of classrooms, equipped with interactive whiteboards or touch-display screens.
- Design and Technology block which includes provision for Computer Aided Design, Workshops including 3D printers and a laser cutter, as well as Food and Textiles areas.



Accommodation and Facilities

Adeiladau a Chyfleusterau

Cyffredinol / General

Mae'r adeilad cyfan o dan un to, ar wahân i'r Ganolfan Chwaraeon a'r bloc Dylunio a Thechnoleg. Mae gan yr ysgol amrywiaeth nodedig o ardaloedd arbenigol:

- Bloc Gwyddoniaeth gyda chwech o labordai
- Darparaeth lawn ar gyfer Chwaraeon a Hamdden—mae'r Ganolfan Chwaraeon a'r Gampfa'n cynnig cyfleusterau ar gyfer sboncen, badminton, tenis dan do, tenis bwrdd, pêl-fasged, yn ogystal â phwll nofio.
- Meysydd chwarae ar gyfer hoci, pêl-droed, rygbi, a chriced; trac athletau; cyrtiau tennis a chae chwarae Astroturf wedi'i lifoleuo.
- Cegin ysgol a ffreutur wedi'u hadnewyddu



The entire building is under one roof, with the exception of the entrance to the Sports Centre and the Design and Technology block. The school has an impressive range of specialist areas:

- Science block with six laboratories.
- Full provision for Sport and Recreation. The Sports Centre, and Gymnasium offer facilities for squash, badminton, indoor tennis, table tennis, basketball, as well as a swimming pool.
- Playing fields with hockey, football, rugby, cricket pitches, athletics track, tennis courts and a floodlit Astroturf pitch.
- Refurbished school kitchen and dining room.



Accommodation and Facilities

Gweithio gyda'n gilydd...

Cydweithio

Mae ein safonau'n uchel ac mae'r dysgwyr yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt. Mae cysylltiad agos gyda rhieni'n ein galluogi i weithio gyda'n gilydd i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi.

Parch tuag at bawb

Mae hyn yn ganolog i ethos yr ysgol. Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb, beth bynnag fo'r gwahaniaethau rhyngom.

Cyswllt

Mae gennym ni fel staff a chi fel rhieni a gofalwyr un nod yn gyffredin, sef cefnogi cynnydd a chyflawniad dysgwyr Ysgol Maes Garmon.

Rhoddir cyfle i chi fel rhieni a gofalwyr drafod cynnydd eich plentyn mewn Noson Cynnydd i'r flwyddyn. Yn ogystal, ceir adroddiad llawn am gynnydd eich plentyn bob blwyddyn yn ogystal ag adroddiad interim. Darperir pob adroddiad a dogfennaeth ysgol yn ddwyieithog.

Rydym yn gwerthfawrogi cyfathrebu rheolaidd i drafod unrhyw bryderon sydd gennych chi neu'ch plentyn er mwyn sicrhau bod eu hamser yn yr ysgol yn hapus ac yn gynhyrchiol. Mae modd gwneud hyn trwy Weduc neu drwy e-bost. Os am drafod wyneb yn wyneb ag aelod o staff, rhaid ffonio'r swyddfa i wneud apwyntiad.



Working together...

Collaborating

Our standards are high and learners know what is expected of them. Close liaison with parents enables us to work together to resolve any problems that may arise.

Respect for one and all

This is a cornerstone of our school and we promote an ethos of equal opportunities for all, irrespective of any differences between us.

Contact

We as staff and you as parents have one common aim – to support the progress and achievement of Ysgol Maes Garmon learners.

As parents and carers, you will receive the opportunity to discuss your child's progress in a Progress Evening for the school year group. In addition, full reports will be provided on your child's progress every year as well as an interim report. All reports and school documentation are provided bilingually.

We value regular communication to discuss any concerns that you or your child may have so that their time at school can be happy and productive. This can be done through Weduc or via e-mail. Should you need to discuss anything face to face with any of our staff members, you must phone the school office to book an appointment.



Marged,
Prifysgol
Aberystwyth
University of
Aberystwyth
2020-2023

'Un o fy hoff bethau am fod yn ddisgybl yn Ysgol Maes Garmon oedd y teimlad o fod yn rhan o deulu mawr. Am ei bod yn ysgol mor fach roedd yn sicr yn teimlo fel fy mod yn rhan o gymuned. Roedd y profiadau a gefais fel aelod o Ysgol Maes Garmon yn fythgofiadwy!'

'One of my favourite things about being a learner in ysgol Maes Garmon was the feeling of being part of a large family. As the school is so small I certainly felt part of a community. The experiences I received through Ysgol Maes Garmon are unforgettable!'



Mari,
Prifysgol Caerdydd
University of Cardiff
2021-2024

'Yn ogystal â'r profiadau allgyrsiol arbennig, yr hyn sy'n aros yn fy nghof yw'r holl gefnogaeth wnes i dderbyn gan fy athrawon. Roedden nhw'n gefnogol iawn ac wastad yn barod i helpu. Rwy'n parhau i fwynhau gwneud celf yn fy amser rhydd, ac rwy'n hynod o ddiolchgar i'r Pennaeth Celf am f'ysbrydoli.'

'As well as the excellent extra-curricular activities I experienced, what stays in my mind is all the support I received from my teachers. They were so supportive and always willing to help. I still enjoy completing art work in my spare time, and I'm so grateful to the Head of Art for inspiring me.'





Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ysgol, mae croeso i chi gysylltu â ni.

If you have any further questions about our school, you are most welcome to contact us.

Bronwen Hughes - Pennaeth *Headteacher*

Nia Jones - Dirprwy Bennath *Deputy Headteacher*

Sion Williams - Pennaeth Cynorthwyol *Assistant Headteacher*

Owen Thomas - Pennaeth Cynorthwyol *Assistant Headteacher*

Llio Alun- Pennaeth Blwyddyn 7/ *Head of Year 7*

YSGOL MAES GARMON

Stryd Conwy

Yr Wyddgrug Mold

CH7 1JB

T.01352 750678

swyddfa@ymg.cymru

www.ysgolmaesgarmon.com



@ysgolmaesgarmon



@maesgarmon